OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2015 Rhif 1878 (Cy. 275)

# TAI, CYMRU
# CAFFAEL TIR, CYMRU

## Rheoliadau Taliadau Colli Cartref (Symiau Rhagnodedig) (Cymru) 2015

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *9 Tachwedd 2015* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *13 Tachwedd 2015* |
| *Yn dod i rym - -* | *10 Rhagfyr 2015* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 30(5) o Ddeddf Digollediad Tir 1973(**1**) ac sy'n arferadwy bellach ganddynt hwy o ran Cymru(**2**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

(**1**) 1973 p. 26; amnewidwyd adran 30 gan adran 68(3) o Ddeddf Cynllunio a Digolledu 1991 (p. 34) gydag effaith o 25 Medi 1991 (*gweler* erthygl 3 o O.S. 1991/2067).

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 30, i'r graddau yr oeddent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac Atodlen 1 iddo. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 30 i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).